**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M Bailey | P M Black | P Downing |
| A J Jeffery | M H Jones | M B Lewis |
| R D Lewis | N L Matthews | T M White |
| R A Williams | | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorwyr E W Fitzgerald, R Fogarty ac W G Thomas

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Chris Healey | Arweinydd Tîm Ardal |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Dave Owen | Prif Swyddog Cynllunio |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Keeton

---

## 10 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd P M Black - Cais Cynllunio 2022/1031/S73 (Eitem 5) – personol a rhagfarnol a gadawodd cyn y drafodaeth am Gais Cynllunio 2022/1167/FUL (Eitem 7) – personol.

Y Cynghorydd P Downing – Cadarnhad o GCC 685 – personol a Chais Cynllunio 2022/1031/S73 (Eitem 5) – personol.

Y Cynghorydd P Lloyd - Ceisiadau Cynllunio 2022/1031/S73 (Eitem 5) a 2022/1167/FUL (Eitem 7) - personol.

## 11 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2022 fel cofnod cywir.

## 12 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 13 Cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed 685.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn gofyn am ystyriaeth o'r cadarnhad, fel Gorchymyn llawn, am Orchymyn Cadw Coed dros dro 685: Ysgol Llwynderw 2022

Amlinellwyd y manylion cefndir a hanes y mater a manylwyd arnynt yn yr adroddiad gan Swyddogion - roedd GCC dros dro wedi'i roi ar y goeden ar 15 Mawrth 2022.

Cafodd y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch y mater a'r difrod i eiddo eu hamlinellu a'u nodi yn yr adroddiad.

Amlinellwyd yr adroddiad annibynnol a luniwyd gan Mr Mark Chester o Cedarwood Tree Care Ltd ar gyfer perchennog yr eiddo yr effeithiwyd arno yn llawn yn yr atodiad i'r adroddiad.

Adroddwyd am e-bost hwyr arall gan y gwrthwynebydd ynghyd ag ymateb y swyddog i'r e-bost ac amlinellwyd y ddau i aelodau'r pwyllgor yn y daflen ddiweddaru.

Anerchodd y Cynghorydd Rebecca Fogarty (Aelod Lleol) y pwyllgor a siaradodd o blaid y cynnig i gadarnhau'r GCC.

**Penderfynwyd** cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed: Ysgol Llwynderw 2022.

## 14 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

**Penderfynwyd** cymeradwyo’r ceisiadau cynllunio isod

1) yn unol â’r amodau yn yr adroddiad a/neu fel a nodir isod:

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2021/1495/FUL - Codi 166 o anheddau gyda mynediad cysylltiedig, tirlunio, mannau agored, isadeiledd gwyrdd, isadeiledd draenio a gwaith cysylltiedig ar dir i'r gogledd o Llewellyn Road, Penllergaer, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Francesca Evans (ymgeisydd) y Pwyllgor.

Anerchodd y Cynghorydd Wendy Fitzgerald (Aelod Lleol) y Pwyllgor a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae Dŵr Cymru wedi dweud nad oes angen amod 15 mwyach.
Derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad. Ni chodwyd unrhyw faterion newydd.

Sylwer; Cymeradwywyd y cais yn unol ag argymhelliad yn amodol ar lofnodi Cytundeb Adran 106 a dileu amod 15.

**#(Eitem 3) – Cais Cynllunio 2022/0381/106 - Addasu cytundeb Adran 106 sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio 2002/1000 a roddwyd ar 19 Awst 2003 i ychwanegu cymal gwahardd amod/morgais newydd yng Nghymal 1 o'r Drydedd Atodlen yn 1-54 (cynhwysol) Llys Hafan, Lamberts Road, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Sylwer; Cymeradwywyd y cais yn unol ag argymhelliad yn amodol ar roi Cytundeb Adran 106 newydd ar waith.

**#(Eitem 4) – Cais Cynllunio 2021/2611/FUL - Newid defnydd a throsi hen dafarn (Colliers Arms) yn ddwy annedd trillawr, gan gynnwys ychwanegu dwy ddormer yn y cefn, goleuadau to yn y cefn, addasiadau i ffensys, dymchwel adeiledd unllawr yn y cefn, tynnu to ar oleddf yn y cefn i roi to gwastad gyda goleuadau llusern a sied feiciau yn 31 Hebron Road, Clydach, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Sylwer: Penderfynodd y Pwyllgor roi pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas i gymeradwyo'r cais os na chodir unrhyw ystyriaethau perthnasol newydd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

**#(Eitem 5) - Cais Cynllunio 2022/1031/S73 - Datblygiad preswyl gydag adeiladu mynedfa newydd i gerbydau oddi ar Nantong Way (amlinellol) (2006/1902) fel yr amrywiwyd gan ganiatâd cynllunio Is-adran 73 2014/1189, 2018/1204/S73 a 2019/0536/S73 Amrywio amod 8 (mynediad parhaol oddi ar Nantong Way) o Adran 73 caniatâd cynllunio 2018/1204/S73 a roddwyd ar 3 Hydref 2018 (i ymestyn y dyddiad ar gyfer adeiladu'r mynediad barhaol oddi ar Nantong Way). Amrywio amod 8 o ganiatâd cynllunio 2019/2523/S73 a roddwyd ar 4 Mehefin 2020 i ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu hyd at 30 Ebrill 2023 i ganiatáu ar gyfer diwygiadau priffyrdd yn nhir yn Upper Bank, Nantong Way, Pentrechwyth, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Sylwer: Cymeradwywyd cais yn unol ag argymhelliad yn amodol ar addasu gofynion y briffordd yn y Cytundeb Adran 106 gwreiddiol

**#(Eitem 6) – Cais Cynllunio 2022/0954/RES - Cymeradwyo'r holl faterion a gadwyd yn ôl mewn perthynas â datblygu'r Adeilad Matrics Arloesedd (Busnes cymysg B1/Addysg D1 gydag A3 atodol), gan gynnwys tirlunio cysylltiedig ac isadeiledd ategol - Cam 1 Ardal Arloesedd y Glannau Abertawe (manylion mynediad, golwg, tirlunio, maint a chynllun yn unol ag amodau 08, 09, 15 a 20 o ganiatâd cynllunio amlinellol 2015/1584 a gymeradwywyd ar 13 Mai 2016) yn Lleiniau Pc a Pj, tir i'r de o Ffordd Fabian ac i'r dwyrain o Afon Tawe, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Sylwer: Cymeradwywyd y cais yn unol ag argymhelliad yn amodol ar addasu gofynion y briffordd yn y Cytundeb Adran 106 gwreiddiol.

**#(Eitem 7) – Cais Cynllunio 2022/1167/FUL - Estyniad un llawr ac estyniad cefn deulawr yn 33 Heol Waun Wen, Llangyfelach, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Yn dilyn yr ymarfer ail-ymgynghori, mae llythyr pellach o wrthwynebiad wedi cyrraedd gan gymydog yn ailddatgan ei wrthwynebiad i'r cynigion.

2) Ei **wrthod** am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad:

**#(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2020/2629/FUL - Dymchwel yr annedd bresennol ac adeiladu bloc 4 llawr sy'n cynnwys 3 fflat yn 2 Broadview Lane, y Mwmbwls, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Pauline Cooper (gwrthwynebydd) y Pwyllgor.

Anerchodd Alex O'Brien (ymgeisydd) ac Alan Seager (asiant) y Pwyllgor.

Anerchodd y Cynghorydd Will Thomas (aelod lleol) y pwyllgor a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae ail baragraff adran 'Effeithiau Preswyl' yr adroddiad yn cyfeirio'n anghywir at 'Rhif 1' ar bedwar achlysur. Dylai pob 'Rhif 1' gael ei ddisodli gan 'Rhif 3' yn y paragraff hwn.

Mae ail baragraff adran 'Effeithiau Preswyl' yr adroddiad yn cyfeirio'n anghywir at 'Rhif 3' ar ddau achlysur. Dylai pob 'Rhif 3' gael ei ddisodli gan 'Rhif 1' yn y paragraff hwn.

Dylai'r canlynol gymryd lle'r rheswm dros wrthod rhif 2;

"Byddai'r adeilad arfaethedig, yn rhinwedd ei leoliad amhriodol a'i raddfa a'i uchder gormodol, yn cael effaith ormesol ac annerbyniol ar feddianwyr 3 Broadview Lane, ac effaith ormesol ac annerbyniol ar feddianwyr 1 Broadview Lane, ar draul yr amodau byw y gallai'r meddianwyr cyfagos hyn ddisgwyl yn rhesymol i'w mwynhau, yn groes i Bolisi PS2 Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (2019) a Chanllawiau Creu Lleoedd y cyngor ar gyfer Datblygu Mewnlenwi a Thir Cefn (2021).

Daeth y cyfarfod I ben am 4.05 pm

**Cadeirydd**